# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Bodedern,

Nos Lun, 22 Ebrill 2024 am 19.00 yng Nghanolfan Bro'r Ysgol

1. Croeso gan y Cadeirydd a derbyn unrhyw ymddiheuriadau.

   Presennol: JA Roberts (JAR, Cadeirydd), D Hughes (DH, Clerc), V Owen (VO), O Jones (OJ), B Hughes (BH), A Postle (AP), L Jones (LJ), J Barnett (JB), G Jones (GJ), K Taylor (KT).

   Ymddiheuriadau - J Ferry, E Jones, R Jones

   JAR yn croesawu DH I'r cyfarfod fel clerc a John Barnett fel aelod.

2. Gwahoddir aelodau i ddatgan diddordeb personol neu niweidiol mewn eitemau busnes a restrir ar yr agenda.

   KT - Item 8

   DH - Yn adrodd fod yn gweithio yn adran strwythurau, Priffyrdd yng Nghyngor Sir Ynys Môn, a fydd unrhyw beth fyddai yn cael eu codi yn y cyfarfod yma neu yn y dyfodol a fyddai yn ddyletswydd iddo ddelio gyda, a fyddai rhaid i'r mater eu trafod ar wahân a'u yrru i mewn gan aelod arall o'r Cyngor Cymuned.

3. Derbyn cofnodion cyfarfod 25 Mawrth 2024, LJ yn Cynnig a BH yn eilio.

   Derbyn cofnodion cyfarfod 8fed o Ebrill 2024, LJ yn Cynnig a BH yn eilio.

4. I ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion;

   Ymateb Gary Leadbitter i'r lonydd,

   - Tyllau ar Ffordd Llundain wedi eu llenwi, dim cynllun o waith ail wynebu 2024/25 ac mae peiriant TRR wedi torri
   - 110m o waith ail wneud droedffordd Ffordd Llundain, 100m ar Stryd Eglwys, 70m o droedffordd a chyrbau Ffordd Llundain.

   Her y Gymuned gan Ysgol Uwchradd Bodedern
   Cynnig i ddau aelod fynd i siarad efo dosbarth yn yr ysgol uwchradd. Syniadau I wella'r parc ac efallai i gael cymorth y plant i lanhau a thacluso'r parc. JAR am gysylltu gyda'r ysgol a mynychu efo John B.

5. Materion Ariannol

   Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa ariannol i'r Cyngor gan JAR. Manylion

   wedi eu recordio oddi fewn y cyfarfod ac wedi eu pasio i bob aelod gael gweld yn

   union y symiau dan sylw. Cyfanswm ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £38,691.09.

   Cais wedi ei rhoi i mewn am TAW, ond medru mynd yn ôl 4 blynedd, yn llwyddiannus gyda £2005.80.

6. Archwiliad

   Yn cwestiynu materion HMRC a chofnodion y fynwent. Angen cyfrif newydd HMRC a rhagor o wybodaeth yn ymwneud a'r fynwent.

   Penderfynwyd gofyn i Alun Foulkes wneud archwiliad mewnol, pawb yn gytûn.

   Cashbook, variations (gwahanieath rhwng dwy flwyddyn ariannol), cofnodion, anfonebau, asedau, derbynebau, polisïau a ffurflenni oddi fewn y ffeil i gyd eu hangen.

   Nifer o eitemau ar y rhestr o bethau sydd eu hangen gan y cyn glerc.

   Ffeiliau yn mynd i mewn I Derek Evans erbyn Mehefin, Alun Foulkes am gael cyfrifon ac asedau.

   AP yn mynegi diolch I JAR am yr holl waith ac amser mae hi wedi rhoi i mewn i drio cael trefn ar waith papur/ffeiliau ayyb, a phawb yn cytuno. Diolch hefyd I Mai Owen (MO) (clerc T Bay am ei gwaith)

7. Còd ymddygiad. Wedi eu pasio, OJ yn Cynnig, AP yn eilio. Dim gwrthwynebiad.

   Pob aelod angen derbyn eu swydd, arwyddo a chadarnhau os am dderbyn y lwfans (£156) a'u peidio. Pawb ddim yn ei dderbyn.

   Polisi ariannol - LJ yn Cynnig OJ yn eilio.

   Rheolau sefydlog - Cael arweiniad gan Mai Owen wedi ei gynnig gan AP, trafod yn y cyfarfod nesaf.

   Lwfans presenoldeb - ddim yn talu hyn

   Lwfans Cadeirydd - Ddim yn ei dderbyn, ddim yn derbyn yr £156 chwaith.

   Polisi lwfans - BH yn Cynnig, JB yn eilio.

8. Deddf Cynllunio Gwlad a Threfi.

   Cadnant, Bodedern - Dim gwrthwynebiad

9. Materion fynwent

   Trafodwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r fynwent.

   Trafodaeth ynglŷn â gwerthu plotiau yn dod i'r casgliad mai'r peth gorau fyddai rhoi stop ar werthu plotiau yn gyfan gwbl. LJ yn Cynnig, VO yn eilio a phawb arall yn mynegi barn eu bod yn cytuno. DH I yrru e-bost yfory I Gareth Owen yn adrodd hyn.

   MO, JAR & OJ am fynd i weld Gareth Owen a thrafod y materion uchod.

   Taliadau Claddu - Cadw'r prisiau'r un peth

   Wal y fynwent - JAR am gael pris gan fod angen mynediad drwy ei thir.

10. Taliadau i'w gwneud.

    Humphreys Waste - £259.20, ond wedi talu £216 felly £43.20 ar ôl. JAR am dalu £28.80

JAR angen ad-daliad unwaith fydd llyfr siec yn cyrraedd.

11. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.

- Tyllau yn Lôn Heibio Presaddfed tuag at Tre Rhys
- Llongyfarch LJ am fod yn Gadeirydd Pwyllgor Tywyn Trewan.
- CSYM wedi gwrthod rhoi speed bumps yn ôl ar lon Bron y Graig
- Baw ci yn a thu allan i'r fynwent. Posibilrwydd o gael bin baw ci ger Caer Meirch
- Tyllau yn Ffordd Llundain a holi am y broblem gyda'r gully.
- Angen trwsio giât tu ôl I 37 Ffordd Llundain. (Housing)
- Lon Dywyll - Angen clirio, llenwi tyllau a thorri gordyfiant.
- Sedd wag, angen hysbysu. Trefnu yn cyfarfod nesaf

- **Cyfrinachedd -** JAR yn pwysleisio i'r aelodau o bwysigrwydd sicrhau cyfrinachedd o faterion sensitif sydd wedi eu trafod.

- Cysylltu efo Lucy Kelly ynglŷn a sicrhau'r ystafell erbyn y cyfarfod nesaf.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 20 Mai 2024

Cadeirydd: ____________________________ Dyddiad: ______________________